Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Amodau Llogi Cyfleusterau Chwaraeon

## Cyffredinol

1. Yn yr amodau hyn bydd y Brifysgol yn golygu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Bydd y Llogwr yn golygu:
    a) Y person sy'n gwneud y cais i logi'r cyfleusterau
    b) Os yw'r person sy'n gwneud y cais yn gwneud hynny ar ran sefydliad, ystyrir y sefydliad hwnnw hefyd yn llogwr a bydd yn atebol ar y cyd ac yn unigol â'r person sy'n arwyddo'r ffurflen.

2. Rhaid talu cyfanswm y taliadau sy'n daladwy, fel y nodwyd yn y llythyr cadarnhau, ymlaen llaw neu mewn arian parod ar y dydd. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo'r Brifysgol wedi cytuno i anfonebu'r cwsmer, ac os felly rhaid talu cyn pen 14 diwrnod ar ôl cael anfoneb.

3. Rhaid i'r llogwr wneud cais yn ysgrifenedig, neu ar ffurflen gais gydnabyddedig, a rhaid rhoi manylion perthnasol ynglŷn â gweithgareddau, niferoedd, offer, amserau a dyddiadau.

4. Dylid cwblhau pob ffurflen a chyflwyno gwybodaeth berthnasol / tystysgrifau (gwreiddiol) pan ofynnir am hynny. Oni wneir hyn ni chaiff y cais ei brosesu.

5. Bydd y llogwr yn cymryd gofal da am y safle a logwyd ac unrhyw osodiadau, ffitiadau, offer neu eiddo o'i fewn, ac ni fydd yn achosi difrod iddynt nac yn caniatáu i ddifrod gael ei wneud iddynt. Bydd yn gwneud iawn am ac yn talu am unrhyw golled neu ddifrod i'r safle (yn cynnwys difrod damweiniol) a achoswyd gan unrhyw weithred neu esgeulustod ar ran y llogwr, ei gynrychiolwyr neu unrhyw berson sy'n defnyddio unrhyw ran o'r safle mewn cysylltiad â'r defnydd o'r safle a logwyd gan y llogwr.

6. Bydd y llogwr yn atebol am, ac yn digolledu'r Brifysgol mewn perthynas ag, unrhyw golled, difrod neu anaf a allai gael eu hachosi gan y llogwr, neu a wneir neu a allai ddigwydd i'r llogwr, neu unrhyw unigolyn neu unigolion a gyflogir ganddo neu unrhyw is-gontractwyr, neu gan neu i unrhyw unigolyn neu unigolion eraill sy'n defnyddio unrhyw ran o safle'r Brifysgol (yn cynnwys unrhyw osodiadau, ffitiadau, offer neu eiddo) yn sgil defnydd y llogwr o'r safle a logwyd.

7. Yn ystod cyfnod llogi unrhyw gyfleuster o fewn Canolfan Chwaraeon y Brifysgol, ni chaniateir unrhyw wylwyr dan 16 oed, oni bai bod oedolyn cyfrifol gyda nhw yn eu goruchwylio drwy'r amser, nad yw'n cymryd rhan yn y gweithgaredd y llogwyd y cyfleuster ar ei gyfer.

8. Ni fydd y Brifysgol ar unrhyw gyfrif yn gwneud iawn am neu'n derbyn cyfrifoldeb neu atebolrwydd am unrhyw ddifrod neu ladrad neu golled mewn perthynas ag unrhyw eiddo, nwyddau, eitemau neu unrhyw bethau eraill, a roddwyd, a osodwyd, a ddygwyd neu a adawyd ar unrhyw ran o safle'r Brifysgol, yn cynnwys y safle a logwyd, naill ai gan y llogwr neu at ei ddefnydd neu'i ddibenion ef/hi, neu gan unrhyw berson arall, neu a roddwyd i neu a adawyd gydag unrhyw swyddog neu weithiwr i'r Brifysgol. Rhaid i'r llogwr ddigolledu'r Brifysgol a dal ei gweithwyr a'i swyddogion yn ddiniwed mewn perthynas â hynny.

9. Ni fydd y Brifysgol yn atebol am unrhyw golled yn sgil peiriannau'n torri, methiant y cyflenwad trydan, dŵr yn gollwng, tân, cyfyngiad y llywodraeth neu Drychineb Naturiol, a allai achosi i'r safle a logwyd neu unrhyw ran ohono fod ar gau dros dro, neu i'r trefniant llogi gael ei ohirio neu'i ganslo.

10. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Rheolwr y Ganolfan Chwaraeon ymlaen llaw i ddefnyddio enw a/neu logo'r Brifysgol.

11. Dros gyfnod y llogi bydd y llogwr yn gyfrifol am y canlynol:

11.1 Goruchwylio'r safle a logwyd yn effeithlon yn cynnwys sicrhau cydymffurfio â'r rheol o ran yr uchafswm o bobl a ganiateir ar y safle; rheoli plant yn effeithiol; sicrhau bod pobl yn cyrraedd ac yn gadael y safle a logwyd yn drefnus a diogel, a chlirio'r safle a logwyd yn drefnus a diogel mewn achos o argyfwng.

11.2 Diogelwch y safle a logwyd a sicrhau trefn dda ac ymddygiad gweddus o'i fewn.

11.3 Sicrhau bod pob drws allan o'r safle a logwyd yn cael eu cadw ar agor ac yn glir o rwystrau, ac ar gael ar unwaith i fynd allan trwyddynt drwy gydol yr amser y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio, ac na chaiff rhwystr ei osod na'i adael mewn unrhyw goridor sy'n rhoi mynediad i'r safle a logwyd.

12. Bydd y llogwr yn darparu'r nifer priodol o stiwardiaid a chynorthwywyr ag sy'n angenrheidiol, ym marn y Brifysgol, i sicrhau cydymffurfio â'r cymal blaenorol a'i weithredu.

13. Os bydd y llogwr yn methu â chydymffurfio â, a gweithredu, unrhyw un neu fwy o'r telerau sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau blaenorol yr amod hwn gall y Brifysgol wneud y canlynol:

13.1 Gwahardd unrhyw unigolyn neu unigolion o'r safle a logwyd.

13.2 Codi a chasglu tâl gan y llogwr am unrhyw gost i'r Brifysgol o ran cyflogi Swyddogion yr Heddlu neu unrhyw bobl eraill i sicrhau cydymffurfio â'r telerau a'u gweithredu.

13.3 Canslo unrhyw ymrwymiad arall am ystafell neu ystafelloedd yn y Brifysgol y gall y llogwr fod wedi'i wneud gan olygu bod y llogwr yn atebol am dalu'r ffi bwcio yn llawn os yw'n cael ei ganslo o fewn saith niwrnod cyn dyddiad y digwyddiad.

14. Ar ddiwedd y cyfnod llogi bydd y llogwr yn gadael y safle a logwyd mewn cyflwr glân a threfnus gan fodloni Rheolwr y Ganolfan Chwaraeon neu gynrychiolydd a awdurdodwyd yn briodol.

15. Os bydd unrhyw fethiant ar ran y llogwr i gadw at yr amodau hyn, sy'n golygu bod y Brifysgol yn mynd i wariant ychwanegol, yna bydd y llogwr yn atebol am dalu'r symiau ychwanegol hynny.

16. Ni chaniateir rhoi bolltau, hoelion, taciau, sgriwiau, pinnau na gwrthrychau eraill tebyg mewn unrhyw ran o'r safle a logwyd ac ni chaiff unrhyw hysbyslenni neu eitemau eraill eu gosod.

17. Ni chaiff unrhyw faneri, arwyddluniau neu unrhyw addurniadau eraill eu harddangos yn unrhyw ran o'r Brifysgol heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw.

18. Ni ddefnyddir unrhyw ran o'r safle a logwyd i werthu celfi neu nwyddau eraill trwy ocsiwn neu fel arall ac eithrio pan fo'r safle a logwyd wedi'i logi'n benodol i ddibenion cynnal arwerthiant gwaith neu drefniant tebyg. Mewn unrhyw achos o'r fath bydd unrhyw ocsiwn yn gysylltiedig â phrif bwrpas y llogi.

19. Rhaid i unrhyw gŵyn yn codi o'r trefniant llogi gael ei wneud i'r Brifysgol yn ysgrifenedig o fewn tridiau i achos y gŵyn.

20. Ceidw'r Brifysgol yr hawl i unrhyw swyddogion awdurdodedig y Brifysgol fynd i unrhyw ran o'r safle a logwyd unrhyw bryd er mwyn cynnal archwiliad.

PENODOL

21. Ceidw'r Rheolwr yr hawl i ganslo unrhyw drefniant bwcio o ganlyniad i gyflwr y tywydd neu am unrhyw reswm arall yn ymwneud â defnydd arall o'r cyfleusterau ar y diwrnod a neilltuwyd neu yn fuan wedyn. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i roi cymaint o rybudd â phosibl i'r llogwr wrth ganslo trefniadau.

22. Rhaid i'r llogwr roi wythnos o rybudd i'r Brifysgol ei fod yn canslo (48 awr i ddefnyddwyr achlysurol), a hynny yn ysgrifenedig.

23. Caiff trefniadau bwcio eu canslo os na fydd y grŵp yn bresennol am ddwy sesiwn yn olynol heb roi rhybudd.

24. Wrth newid trefniadau bwcio, dilynir yr un canllawiau ag ar gyfer canslo.

| Llofnod y llogwr | Dyddiad |
|---|---|

Swydd